




www.food.gov.uk



Y PWYLLGOR YMGYNGHOROL AR FWYDYDD A PHROESAU NEWYDD

CYNLLUN CYHOEDDIADAU Y DDEDDF RHYDDID GWYBODAETH

**Paratowyd yn unol â darpariaethau
Deddf Rhyddid Gwybodaeth (FOIA) 2000**

Mynegai

		Tudalen(nau)
Adran 1	Cyflwyniad	
	- Y Pwyllgor Ymgynghorol ar Fwydydd a Phrosesau Newydd (ACNFP)	3
	- Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000	4
	- Beth yw nod y cynllun cyhoeddiadau	4
	- Ein polisi hawlfraint	5
Adran 2	Cynllun Cyhoeddiadau ACNFP	6
Adran 3	Cael gfael ar wybodaeth o dan y cynllun	8
Adran 4	Y Gofrestr Ased Gwybodaeth (IAR)	10
Adran 5	Trefn gwyno	11
Adran 6	Eich ymateb	13

Adran 1: Gwybodaeth

Y Pwyllgor Ymgynghorol ar Fwydydd a Phrosesau Newydd (ACNFP)

1. Corff annibynnol o arbenigwyr yw'r ACNFP a ffurfiwyd ym 1988 i asesu pa mor ddiogel yw'r bwydydd a'r prosesau newydd a ddefnyddir wrth gynhyrchu bwyd.
2. Mae'r ACNFP yn gwerthuso ceisiadau bwydydd newydd ar gyfer cael sêl bendith dan Reoliad Bwydydd Newydd CE (258/97), a ddaeth i rym ar 15 Mai 1997. Cyn cyflwyno'r Rheoliad, roedd yn cynnal asesiad diogelwch i alluogi cynhyrchion newydd i gael eu marchnata dan gynllun gwirfoddol y Llywodraeth, ac mae'r rhain yn parhau i fod dan ofal Deddf Diogelwch Bwyd 1990.
3. Cylch gorchwyl ACNFP yw:
'Cynghori'r awdurdodau canolog cyfrifol yng Nghymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon ynglŷn ag unrhyw faterion sy'n ymwneud â bwydydd newydd a phrosesau bwyd gan gynnwys arbelydriad bwyd gan gymryd sylw o farn y cyrff perthnasol o arbenigwyr, fel sy'n briodol.'
4. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu fod yr ACNFP yn rhoi cyngor ar bob agwedd o fwydydd newydd, gan gynnwys diogelwch bwydydd a phrosesau newydd, ac yn ymgynghori â phwyllgorau arbenigol eraill fel sydd angen, cyn cyflwyno'i argymhellion i Fwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd.
5. Mae'r ACNFP yn cynnwys arbenigwyr annibynnol wedi'u penodi gan Fwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar ôl ymgynghori â'r Gweinidogion Iechyd, i gwmpasu amrywiaeth eang o wybodaeth ac arbenigedd a gwyddonol amlwg, er mwyn archwilio'r materion yn fanwl ac fel bod ceisiadau unigol yn cael eu hystyried yn ôl eu haeddiant.
6. Ar hyn o bryd, mae'r Pwyllgor yn cynnwys 15 Aelod a Chadeirydd, ac yn cwmpasu meysydd arbenigedd gan gynnwys bwydydd wedi'u haddasu'n enetig, maetheg, microbioleg, tocsicoleg a thechnoleg bwyd. Mae tri o'r Aelodau yn gynrychiolwyr lleyg, sef dau sy'n cynrychioli defnyddwyr sy'n taflu goleuni gwerthfawr ar bryderon defnyddwyr, a moesegwr sy'n cynghori ar faterion moesegol sy'n ymwneud â bwydydd a phrosesau newydd, gan gynnwys bwydydd wedi'u haddasu'n enetig.

Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

7. Cafodd **Deddf Rhyddid Gwybodaeth (FOIA) 2000** Gydsyniad Brenhinol ar 30 Tachwedd 2000. Ni fydd y Ddeddf yn dod i rym yn llawn tan 2005. Bydd yn rhoi hawl cyffredinol i bobl gael gafael ar bob math o wybodaeth a gofnodwyd gan awdurdodau cyhoeddus, rhoi eithriadau o'r hawl honno a rhoi nifer o rwymedigaethau ar awdurdodau cyhoeddus. Mae'r ACNFP yn un o'r awdurdodau hynny. Pan fydd y Ddeddf mewn grym, bydd rhaid i unrhyw un sy'n gwneud cais am wybodaeth gan awdurdod cyhoeddus gael gwybod a oes gan yr awdurdod cyhoeddus wybodaeth o'r fath a'i chael gan yr awdurdod hwnnw, yn amodol ar eithriadau. Bydd hawl yr unigolyn i gael gwybodaeth yn dod i rym ym mis Ionawr 2005.
8. O fis Tachwedd 2002, bydd y Ddeddf yn mynnu bod y Pwyllgor yn paratoi **cynllun cyhoeddiadau**, sef canllawiau i gyhoeddiadau a pholisïau'r Pwyllgor. Y nod yw darparu'r fframwaith i chi gael mynediad uniongyrchol i'r dogfennau hyn sydd wedi'u cyhoeddi.

Beth yw nod y cynllun cyhoeddiadau

9. O fis Tachwedd 2002, mae gan yr ACNFP, ynghyd â phob awdurdod cyhoeddus, ddyletswydd cyfreithiol o dan Adran 19 FOIA 2000 i:
 - fabwysiadu a chynnal cynllun sy'n berthnasol i gyhoeddi gwybodaeth gan yr awdurdod, a chael sêl bendith y Comisiynydd Gwybodaeth i'r cynllun;
 - cyhoeddi gwybodaeth yn unol â'r cynllun hwnnw; ac
 - adolygu'r cynllun o bryd i'w gilydd.
10. Mae'r cynllun cyhoeddiadau yn manylu ar:
 - y dosbarthiadau o wybodaeth mae'r awdurdod cyhoeddus yn eu cyhoeddi (neu'n bwriadu eu cyhoeddi);
 - y modd y caiff y wybodaeth ym mhob dosbarth ei chyhoeddi (neu y bwriedir ei chyhoeddi), a;
 - p'un ai ydy'r deunydd ar gael (neu y bwriedir iddo fod) yn rhad ac am ddim neu am bris.
11. Nod cynllun cyhoeddiadau ACNFP yw casglu ynghyd yr holl fathau gwahanol o wybodaeth sydd ar gael gan y Pwyllgor o ran cyflawni ei swyddogaethau cyhoeddus mewn modd eglur a threfnus. Bydd y cynllun yn dosbarthu'r math o wybodaeth ac yn rhoi manylion ynghylch cael gafael arni. Y fantais gyffredinol i'n budd-ddeiliaid ac eraill fydd arbed amser ac ymdrech wrth chwilio a chael gafael ar yr wybodaeth berthnasol ynglŷn â'r Pwyllgor.

Ein polisi hawlfraint

12. Mae'r Pwyllgor yn adrodd i'r Asiantaeth Safonau Bwyd, sef adran anweinidogol o'r llywodraeth, ac felly mae'n gwybodaeth ni yn amodol ar hawlfraint y Goron dan weinyddiaeth Llyfrfa Ei Mawrhydi. Mae'r Asiantaeth yn eich caniatáu chi i wneud un copi am ddim o unrhyw eitemau sy'n rhan o'n cynllun cyhoeddiadau ar gyfer ymchwil breifat, astudiaeth a/neu at ddibenion cyfeirio, trwy naill ai ddadlwytho i argraffydd neu i gyfrwng storio electronig, magnetig neu weledol. Os hoffech chi aildefnyddio neu ailgynhyrchu unrhyw un o'n cyhoeddiadau at ddibenion eraill, megis yn fasnachol, yn addysgol neu am resymau eraill, yna bydd angen trwydded hawlfraint arnoch yn y rhan fwyaf o achosion. Mae ceisiadau am drwydded hawlfraint ar gael o'r cyfeiriad a ganlyn: Her Majesty's Stationery Office Copyright Unit, St Clements House, 2-16 Colegate, Norwich NR3 1BQ (Ffacs: 01603 723 000) neu ebost copyright@hmso.gov.uk
13. Os ydyn ni'n cadw dogfennau neu ddeunyddiau sy'n perthyn i, neu sy'n cael eu rhannu gyda deiliaid hawlfraint eraill, fe fyddwn yn rhoi eu manylion cyswllt i chi neu eu cyfeiriad gwefan os bydd modd, er mwyn eich cynorthwyo i gyrchu'r ddogfen neu'r deunydd.
14. I gael cip ar Nodiadau Canllaw Llyfrfa Ei Mawrhydi ar amrywiaeth o faterion hawlfraint, ewch i'r wefan sef:
<http://www.hmso.gov.uk/guides.htm>
Os ydych yn ansicr o hyd a oes cyfyngiadau hawlfraint ar ddogfen benodol sy'n rhan o'n cynllun cyhoeddiadau, cysylltwch â:

*Mrs Rita Lister (Librarian)
Food Standards Agency
Aviation House
125 Kingsway
Llundain WC2B 6NH*

*Ffôn: 020 7276 8065
Ffacs: 020 7276 8069*

Ebost: rita.lister@foodstandards.gsi.gov.uk

Adran 2: Cynllun Cyhoeddiadau ACNFP

Nodwch y gallai'r dogfennau sy'n rhan o'r cynllun cyhoeddiadau gael eu golygu o bryd i'w gilydd, os yw Ysgrifenyddiaeth yr ACNFP o'r farn na ddylid datgelu gwybodaeth ar sail yr eithriadau a nodir ym **Mholisi Gonestrwydd ACNFP** ac sy'n amodol ar y gwaharddiadau a nodwyd dan adran 19 **Deddf Safonau Bwyd 1999**. Os cafodd dogfen ei golygu, yna bydd hynny wedi'i nodi'n glir i'r sawl sy'n ei ddarllen.

Mae pob gwybodaeth ynghylch y Pwyllgor ar gael yng ngwefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, trwy gyrchu: www.food.gov.uk/science/ouradvisors/novelfood/

MATH O WYBODAETH	BLE MAE'R WYBODAETH AR GAEL	COST
<i>Agendâu ACNFP</i>	<ul style="list-style-type: none"> Gwefan yr ASB Ar gais i Ysgrifenyddiaeth ACNFP 	Am ddim*
<i>Papurau Cyfarfodydd ACNFP</i>	<ul style="list-style-type: none"> Gwefan yr ASB Ar gais i Ysgrifenyddiaeth ACNFP 	Am ddim
<i>Cofnodion ACNFP</i>	<ul style="list-style-type: none"> Gwefan yr ASB Ar gais i Ysgrifenyddiaeth ACNFP 	Am ddim
<i>Adroddiadau Blynyddol ACNFP</i>	<ul style="list-style-type: none"> Gwefan yr ASB Ar gais i Ysgrifenyddiaeth ACNFP Llyfrgell yr ASB 	Am ddim
<i>Côd Ymddygiad ar gyfer aelodau ACNFP</i>	<ul style="list-style-type: none"> Gwefan yr ASB Ar gais i Ysgrifenyddiaeth yr ACNFP 	Am ddim
<i>Tabl o Ddiddordebau'r Aelodau</i>	<ul style="list-style-type: none"> Gwefan yr ASB Mewn adroddiadau blynyddol Ar gais i Ysgrifenyddiaeth yr ACNFP 	Am ddim
<i>Ceisiadau Bwydydd neu Brosesau Newydd a gyflwynwyd i'r ACNFP i'w cymeradwyo ar ôl Rhagfyr 1999</i>	<ul style="list-style-type: none"> Gwefan yr ASB 	Am ddim
<i>Llyfryn Corfforaethol a Thafleini Ffeithiau'r ACNFP</i>	<ul style="list-style-type: none"> Ar gais i Ysgrifenyddiaeth yr ACNFP 	Am ddim
<i>Canllawiau'r ACNFP o ran cynnal Profion Blasau ar fwydydd newydd neu fwydydd wedi'u cynhyrchu gan brosesau newydd</i>	<ul style="list-style-type: none"> Ar gais i Ysgrifenyddiaeth yr ACNFP Gwefan yr ASB 	Am ddim
<i>Canllawiau'r ACNFP ynghylch defnyddio Astudiaethau Dynol wrth gynnal asesiadau diogelwch o fwydydd newydd cyn iddynt fynd ar y farchnad</i>	<ul style="list-style-type: none"> Ar gais i Ysgrifenyddiaeth yr ACNFP Gwefan yr ASB 	Am ddim

* Cyfeiriwch at Nodyn 2 (Tudalen 7) ym mhob achos.

NODYN 1: Dolenni cyswllt

Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor: Cysylltwch â **Mr Adam Hardgrave** yn y lle cyntaf fel a ganlyn:

ACNFP Secretariat
Room 515B
Aviation House
125 Kingsway
Llundain
WC2B 6NH

Ffôn: 020 7276 8595
Ffacs: 020 7276 8564
Ebost: acnfp@foodstandards.gsi.gov.uk

Llyfrgell yr ASB: Cysylltwch â **Mrs Rita Lister** yn y lle cyntaf fel ganlyn:

Food Standards Agency Library
Ground Floor
Aviation House
125 Kingsway
Llundain
WC2B 6NH

Ffôn: 020 7276 8065
Ffacs: 020 7276 8069
Ebost: rita.lister@foodstandards.gsi.gov.uk

NODYN 2: Costau gweinyddol

Fel arfer, ni fyddwn yn codi tâl am ddsbarthu copïau o wybodaeth neu gyngor, oni bai eich bod eisiau cyhoeddiad neu ddata sydd ar werth am bris penodol. Er hynny, rydym yn cadw'r hawl i godi tâl rhesymol i dalu costau copïo, llungopïo, pecynnu a phostio, neu os bydd angen neilltuo llawer o amser staff i nodi, prosesu a chasglu gwybodaeth ar eich cyfer. Mewn rhai achosion, bydd trefniadau codi tâl ar wahân i roi gwybodaeth ar gyfer dibenion masnachol. Byddwch yn rhoi gwybod i chi os bydd costau cyn i ni brosesu'ch cais.

Adran 3: Cael gafael ar wybodaeth o dan y cynllun

15. Polisi cyffredinol yr ACNFP, yn unol â'r Côd Ymarfer ar Onestrwydd, yw i fod mor ddidwyll ac eglur ag y bo modd wrth ymdrin â phob cais am wybodaeth.
16. Os na lwyddoch chi i gael gafael ar y wybodaeth yr ydych am ei chael ar ôl chwilio drwy'r cynllun, yna gallwch gyflwyno cais ysgrifenedig am wybodaeth yn unol â Chôd Ymarfer ar Onestrwydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd.
17. Mae copi o Gôd Ymarfer ar Onestrwydd yr Asiantaeth [\[HOTLINK\]](#) ar gael o'r cynllun cyhoeddiadau hwn neu trwy gysylltu â -

*Miss Christine Reynolds
Food Standards Agency
Aviation House
125 Kingsway
Llundain WC2B 6NH*

*Ffôn: 020 7276 8628
Ffacs: 020 7276 8004*

Ebost: christine.reynolds@foodstandards.gsi.gov.uk

18. Byddwn yn rhoi pob chwarae teg i bob cais am wybodaeth a hynny heb unrhyw ragfarn. Os na allwn ni roi'r wybodaeth yr ydych am ei chael i chi, byddwn yn esbonio pam. Os byddwn yn penderfynu peidio â rhyddhau gwybodaeth, byddwn yn esbonio pam ac yn rhoi manylion sut y gallwch chi gwyno'n erbyn ein penderfyniad.
19. Dylech gyflwyno cais am wybodaeth o dan Gôd Ymarfer ar Onestrwydd yr Asiantaeth, yn ysgrifenedig trwy'r post neu'r ffacs. Rhowch cymaint o wybodaeth ag y bo modd er mwyn i ni gael gafael ar yr wybodaeth angenrheidiol:

Lloegr:

Food Standards Agency
Aviation House
125 Kingsway
Llundain WC2B 6NH
Ffacs: 020 7276 8833

Cymru:

Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru
Llawr 1af
Tŷ Southgate
Wood Street
Caerdydd CF10 1EW
Ffacs: 029 2067 8918/8919

Yr Alban:

Food Standards Agency (Scotland)
St Magnus House
6th Floor
25 Guild Street
Aberdeen AB11 6NJ
Ffacs: 01224 285167

Gogledd Iwerddon:

Food Standards Agency (NI)
10C Clarendon Road
Belfast BT1 3BW
Ffacs: 028 9041 7726

20. Fel arfer, ni fyddwn yn codi tâl am ddsbarthu copïau o wybodaeth neu gyngor, oni bai eich bod eisiau cyhoeddiad neu ddata sydd ar werth am bris penodol. Er hynny, rydym yn cadw'r hawl i godi tâl rhesymol i dalu costau copïo, llungopïo, pecynnu a phostio, neu os bydd angen neilltuo llawer o amser staff i nodi, prosesu a chasglu gwybodaeth ar eich cyfer. Mewn rhai achosion, bydd trefniadau codi tâl ar wahân i roi gwybodaeth ar gyfer dibenion masnachol. Byddwn yn rhoi gwybod i chi os bydd costau cyn i ni brosesu'ch cais.
21. Os yw'r wybodaeth rydych chi ei heisiau mewn cyhoeddiad am bris, byddwn yn rhoi manylion am y cyhoeddiad ac yn lle y gallwch ei brynu .
22. Os nad ydych yn fodlon gyda'n rhesymau ni, mae gennych hawl i gwyno. Gallwch hefyd gwyno os credwch ein bod yn codi tâl annheg am roi gwybodaeth.

Adran 4: Cofrestr Ased Gwybodaeth (IAR)

23. Fel rhan o ymrwymiad y Llywodraeth i fod yn agored ac yn unol â'n Côd Ymarfer ar Onestrwydd, mae'r ACNFP wedi rhoi manylion o'i gyhoeddiadau i Gofrestr Ased Gwybodaeth (IAR) yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Mae'r IAR yn cynnwys manylion o asedion gwybodaeth y Llywodraeth y gellir eu haildefnyddio dan drwydded. Mae'n canolbwyntio'n bennaf ar ddaliadau **data sydd heb eu cyhoeddi** ac felly'n rhoi arweiniad er mwyn hwyluso'r modd o gael gafael ar adnoddau gwybodaeth heb eu cyhoeddi sydd ym meddiant yr ASB.
24. Peiriant chwilio *inforoute* yw'r porth i bawb sy'n gallu cyrchu'r rhyngwyd gael gwybodaeth gan gyrrff Llywodraeth y DU. Mae'n gyfrwng cysylltiad uniongyrchol â IAR y Llywodraeth sy'n nodi:
- pa wybodaeth sydd gan y Llywodraeth;
 - pa mor ddefnyddiol yw'r wybodaeth; ac
 - yn bwysicach fyth, yn nodi'r pwynt cyswllt ar gyfer cyflwyno cais am wybodaeth gyffredinol (bydd ceisiadau o'r fath yn amodol ar Gôd Llywodraeth Agored, a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn y dyfodol).
25. Mae rhagor o wybodaeth ynglŷn â IAR ar gael yng ngwefan Llyfrfa Ei Mawrhydi sef www.inforoute.hmso.gov.uk neu oddi wrth;

*Information Asset Register
e-services Division
HMSO
7 St James's Square
Llundain SW1Y 4JU*

*Ffôn: 020 7276 5202
Ffacs: 020 7276 5207*

Adran 5: Trefn gwyno

26. Mae hyd yn oed y sefydliadau gorau oll yn gwneud camgymeriadau weithiau. Os ydych chi'n anfodlon gyda rhywbeth rydym ni wedi'i wneud, neu'r modd yr aethom ati i gyflawni rhywbeth, rhowch wybod i ni. Fe wnawn ein gorau glas i ddatrys y broblem cyn pen dim, ac esbonio beth rydym wedi'i wneud a pham. Bydd eich sylwadau chi yn fodd i ni ddysgu o'n camgymeriadau.
27. Gan fod y Pwyllgor yn adrodd i'r ASB, os ydych am gwyno, yna yn y lle cyntaf rhowch fanylion yr hyn yr ydych yn anhapus yn ei gylch, a pham, i'r sawl y buoch yn trafod y mater ag ef.

Os nad ydych chi'n gwybod â phwy i gysylltu'n uniongyrchol, cysylltwch â **Chydlynnydd Cwynion yr Asiantaeth**:

Miss Barbara Richards
(Head of Corporate Secretariat & Consumer Issues Division)

Food Standards Agency
Aviation House (Room 612c)
125 Kingsway
Llundain WC2B 6NH
Ffôn: 020 7276 8610
Ffacs: 020 7276 8004

Ebost: barbara.richards@foodstandards.gsi.gov.uk

28. Os na allwn ni ymdrin â'ch cwyn ar unwaith, byddwn yn cydnabod ei derbyn cyn pen dau ddiwrnod gwaith (cofiwch roi eich cyfeiriad postio llawn i ni bob amser). Byddwch yn ysgrifennu atoch gydag ateb llawn cyn pen 20 diwrnod gwaith ar ôl i ni dderbyn eich cwyn. Os nad yw hyn yn bosibl, byddwn yn esbonio pam ac yn dweud pryd y cewch chi ateb llawn.
29. Os nad ydych yn fodlon â'n hateb, ac yr hoffech chi fynd â'r mater ymhellach, cysylltwch â'r Cydlynnydd Cwynion yn y cyfeiriad uchod. Byddwn yn trafod eich cwyn eto, ac yn rhoi ateb i chi cyn pen 20 diwrnod gwaith.
30. Os byddwch yn dal yn anfodlon, yna gallwch ofyn i'r Cydlynnydd Cwynion gyfeirio'r mater i Brif Weithredwr yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Mr Geoffrey Podger.
31. Os byddwch yn parhau'n anfodlon gyda'r modd mae'r Asiantaeth wedi ymateb, yna gallwch ofyn i Gomisiynydd Seneddol y DU dros Weinyddiad (yr Ombwdsman) archwilio'r modd y cafodd eich cwyn ei thrafod. Dylech ysgrifennu at eich Aelod Seneddol am gael cyfeirio'ch cwyn i'r Ombwdsman. Rhif ffôn Swyddfa Gwybodaeth Tŷ'r Cyffredin, lle gallwch gysylltu â'ch AS, yw 020 7219 4272.

32. Mae'r drefn gwyno hon yn berthnasol i'r Asiantaeth Safonau Bwyd i gyd – ar gyfer y pencadlys yn Llundain, y swyddfeydd yng Nghymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon, ac i'r ACNFP.
33. Ar ôl mis Tachwedd 2002, pan fydd gofyniad y Cynllun Cyhoeddiadau yn y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn dod i rym, byddwch hefyd yn gallu cwyno'n uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth os byddwch o'r farn na wnaethom gydymffurfio â'n hymrwymiaadau. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn www.dataprotection.gov.uk.
34. Fel arall, gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn uniongyrchol os ydych yn dymuno:

*The Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire SK9 5AF*

*Llinell Wybodaeth: 01625 545745
Switsfwrdd: 01625 545700
Ffacs: 01625 524510
Ebst: mail@dataprotection.gov.uk*

Adran 6: Eich ymateb

35. Mae Cynllun Cyhoeddiadau'r ACNFP ynghyd â Chynllun Cyhoeddiadau'r ASB yn rhan o ymrwymiad yr Asiantaeth Safonau Bwyd i weithio yn unol â'i **Ddatganiad o Amcanion ac Arferion Cyffredinol** (a gyhoeddwyd yn unol ag Adran 22 Deddf Safonau Bwyd 1999). Mae hyn yn nodi'n gwerthoedd craidd o roi'r defnyddiwr yn gyntaf, bod yn llais annibynnol mewn materion sy'n ymwneud â diogelwch bwyd neu unrhyw faes arall o ddiddordeb i ddefnyddwyr mewn perthynas â bwyd, ac y byddwn yn gweithio mewn modd hollol agored ac eglur.
36. Mae'r cynllun yn cyflawni'n dyletswydd statudol o dan Adran 19 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Croesawn unrhyw sylwadau ar strwythur a/neu gynnwys y cynllun ei hun. Byddwn yn trin y cynllun fel dogfen 'fyw' y byddwn yn ei diwygio a'i datblygu yng ngwyneb ein profiad, fel sy'n briodol.
37. Wrth fynegi barn, gofynnwn i chi ystyried y canlynol yn arbennig;
- oedd strwythur a chynnwys y cynllun yn hawdd i'w ddeall?
 - oeddech chi'n chwilio am unrhyw wybodaeth benodol?
 - oedd y cynllun hwn yn hwyluso'ch gwaith chwilio yn llwyddiannus?
 - os oeddech chi'n pori am wybodaeth, oedd y cynllun o gymorth i chi chwilio ac a oedd yn gwneud y broses yn haws?
 - oes unrhyw fath o wybodaeth neu feysydd nad ydynt yn rhan o'r Cynllun ASB ar hyn o bryd yr hoffech chi eu gweld yn y dyfodol?
 - oes gennych chi unrhyw awgrymiadau neu sylwadau eraill a allai wneud y cynllun yn fwy defnyddiol neu'n haws ei ddefnyddio?
38. Anfonwch eich barn a'ch sylwadau ar y cynllun hwn i acnfp@foodstandards.gsi.gov.uk gan nodi'ch enw, eich sefydliad (os yw'n berthnasol) a'r manylion cyswllt. Fel arall, ysgrifennwch at;

*ACNFP Secretariat
FOOD STANDARDS AGENCY
Room 515B
Aviation House
125 Kingsway
Llundain WC2B 6NH*

*Ffôn: 020 7276 8595
Ffacs: 020 7276 8564*

39. Dr Sandy Lawrie, Ysgrifennydd yr ACNFP, yw Cydlynnydd Cynllun Cyhoeddiadau'r ACNFP.
40. Mr Adam Hardgrave fydd yn cynnal Cynllun Cyhoeddiadau'r ACNFP, o fewn Ysgrifenyddiaeth yr ACNFP.